

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr P. J. Lucas
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424045 - Ms.Karyl May, Pennaeth y Gwasanaethau
Llywodraethol

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR PENODI** yn cael ei gynnal yn **Nhŷ Dysgu, Nantgarw fore lau, 8 Rhagfyr, 2016 am 9.30.**

A G E N D A

1 Datgan Buddiant

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Noder: Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 Cofnodion

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2016 yn rhai cywir.

3 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:—

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

4 Cyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer y swydd Prif Weithredwr

Cylchrediad:

Y Cynghorwyr (Mrs) T.Bates, (Mrs.)S.J.Jones, C.Davies, A.Morgan a (Mrs.)
M.Webber

Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

1 Rhagfyr 2016